



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2007 Rhif 1047 (Cy.105)

2007 No. 1047 (W.105)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Lles Anifeiliaid
(Cludo) (Cymru) 2007**

**The Welfare of Animals
(Transport) (Wales) Order 2007**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo ac yn ystod gweithrediadau cysylltiedig (OJ Rhif L 3, 5.1.2005. t.1).

This Order makes provision in Wales for the administration and enforcement of Council Regulation (EC) No 1/2005 on the protection of animals during transport and related operations (OJ L 3, 5.1.2005. p.1.).

Mae'n darparu hefyd ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor 1255/97 ynghylch meini prawf y Gymuned ar gyfer manau aros (OJ L 174, 2.7.97 t.1).

It also provides for the administration and enforcement of Council Regulation 1255/97 concerning Community criteria for staging points (OJ L 174, 2.7.97 p.1.).

Mae'n dirymu (i'r graddau y mae'n effeithiol yng Nghymru) Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 1997, a weithredodd Gyfarwydddeb y Cyngor 91/628/EEC ar ddiogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo (OJ Rhif L340, 11.12.91, t. 17).

It revokes (insofar as it has effect in Wales) the Welfare of Animals (Transport) Order 1997, which implemented Council Directive 91/628/EEC on the protection of animals during transport (OJ No L340, 11.12.91, p 17).

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn gorfodi gofynion Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ynglŷn â chludo (erthygl 5), cludwyr (erthygl 6), llestri gyrru mewn ac allan (erthygl 7), trefnwyr (erthygl 8), ceidwaid (erthygl 9) a chanolfannau cynnull (erthygl 10). Mae'n gorfodi hefyd ofynion Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97 mewn perthynas â safleoedd rheoli (erthygl 11). Mae erthygl 11 yn ei gwneud yn dramgwydd i ddefnyddio safle rheoli nas cymeradwywyd ac i weithredu safle rheoli heb gael cymeradwyaeth ymlaen llaw.

Part 2 of the Order enforces the requirements of Council Regulation (EC) No 1/2005 in relation to transport (article 5), transporters (article 6), roll-on-roll-off vessels (article 7) organisers (article 8), keepers (article 9) and assembly centres (article 10). It also enforces the requirements of Council Regulation (EC) No 1255/97 in relation to control posts (article 11). Article 11 makes it an offence to use an unapproved control post and to operate a control post without prior approval.

Mae Rhan 3 yn darparu rhanddirymiaid ynglŷn â'r cyfrwng cludo ar y ffordd a ddefnyddir ar gyfer teithiau nad ydynt yn hwy na 12 awr er mwyn cyrraedd y gyrchfan derfynol (erthyglau 12 i 19).

Part 3 provides derogations relating to means of transport by road used in respect of journeys not exceeding 12 hours in order to reach the final destination (articles 12 to 19).

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer diwygio, atal neu ddirymu cymeradwyaethau, awdurdodiadau neu dystysgrifau ac ar gyfer sylwadau yn erbyn hysbysiad i'w diwygio, i'w hatal neu i'w dirymu (erthyglau 20 i 23).

Rhoddir pwerau i arolygwyr ei gwneud yn ofynnol i berson cyfreithiol gydymffurfio â'r Gorchymyn, gan gynnwys pŵer i stopio taith (erthygl 24).

Mae'n ofynnol i berchenogion a siartrwyr llestri a ddefnyddir i gludo anifeiliaid ddangos gwybodaeth, os gofynnir iddynt wneud hynny, i un o swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a gall yr wybodaeth honno gynnwys plan o'r llestr (erthygl 26).

Awdurdodau lleol sy'n gorfodi'r Gorchymyn (erthygl 29).

Mae torri'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, ac yn dwyn cosb yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi a gellir cael copïau oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Part 4 provides for the amendment, suspension or revocation of approvals, authorisations or certificates and for representations against a notice to amend, suspend or revoke them (articles 20 to 23).

Inspectors are given powers to require compliance with the Order, including the power to stop a journey (article 24).

Owners and charterers of vessels used to transport animals are required to produce information on demand to an officer of the National Assembly, which may include a plan of the vessel (article 26).

The Order is enforceable by local authorities (article 29).

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

A Regulatory Appraisal has been prepared and copies can be obtained from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2007 Rhif 1047 (Cy.105)

2007 No. 1047 (W.105)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Lles Anifeiliaid
(Cludo) (Cymru) 2007**

**The Welfare of Animals
(Transport) (Wales) Order 2007**

Wedi'i wneud 2007
Yn dod i rym 30 Mawrth 2007

Made 2007
Coming into force 30 March 2007

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Cyflwyniad

Introduction

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Ymestyn y diffiniad o "animals" a "poultry"

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Extension of definition of "animals" and "poultry"

Rhan 2

PART 2

Cludo Anifeiliaid

Transport of Animals

4. Darpariaeth gyffredinol ynghylch diogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo
5. Cludo
6. Cludwyr
7. Llestri gyrru mewn ac allan
8. Trefnwyr
9. Ceidwaid
10. Canolfannau cynnull
11. Safleoedd rheoli

4. General provision on the protection of animals during transport
5. Transport
6. Transporters
7. Roll-on-roll-off vessels
8. Organisers
9. Keepers
10. Assembly centres
11. Control posts

RHAN 3

Rhanddirymiadau ar gyfer cyfryngau cludo ar y ffordd ar deithiau sydd o dan 12 awr

12. Cymhwyso
13. Rhanddirymu arolygu a chymeradwyo
14. Rhanddirymu'r gofyniad am fynediad parhaus i ddwr
15. Rhanddirymu'r gofyniad am do sydd wedi'i inswleiddio
16. Rhanddirymu'r gofynion ynghylch tymheredd
17. Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch systemau awyru
18. Rhanddirymu'r gofynion ynghylch monitro tymheredd
19. Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch system lywio

RHAN 4

Cymeradwyaethau

20. Yr awdurdod cymwys
21. Cymeradwyaethau, awdurdodiadau etc.
22. Atal cymeradwyaethau, dirymu cymeradwyaethau etc.
23. Cyflwyno sylwadau i berson penodedig

RHAN 5

Amrywiol

24. Pwerau arolygwyr
25. Cydymffurfio â hysbysiadau
26. Dangos cynlluniau
27. Rhwystro
28. Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol
29. Gorfodi
30. Diwygio
31. Dirymu

PART 3

Derogations for means of transport by road on journeys under 12 hours

12. Application
13. Derogation from inspection and approval
14. Derogation from requirement for continuous access to water
15. Derogation from insulated roof requirement
16. Derogation from temperature requirements
17. Derogation from ventilation system requirement
18. Derogation from temperature monitoring requirements
19. Derogation from navigation system requirement

PART 4

Approvals

20. The competent authority
21. Approvals, authorisations etc
22. Suspension, revocation of approvals etc
23. Representations to an appointed person

PART 5

Miscellaneous

24. Powers of inspectors
25. Compliance with notices
26. Production of plans
27. Obstruction
28. Offences by bodies corporate
29. Enforcement
30. Amendments
31. Revocations

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7, 8(1), 37, 38(1), 39, 83(2) a 87(2), (3) a (5)(a) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1), ac a freiniwyd ynddo bellach(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 1, 7, 8(1), 37, 38(1), 39, 83(2) and 87(2), (3) and (5)(a) of the Animal Health Act 1981(1), and now vested in it(2), makes the following Order:

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007. Daw i rym ar 30 Mawrth 2007 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.-(1)Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn, ac y defnyddir yr ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn y Rheoliadau canlynol, yr un ystyr yn y Gorchymyn hwn ag ystyr yr ymadroddion Saesneg hynny yn y Rheoliadau hynny.

(3) Y Rheoliadau yw-

- (a) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig a'r Cyfarwyddebau diwygio, sef 64/432/EEC a 93/119/EC, a Rheoliad (EC) 1255/97(3);
- (b) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97 ynghylch meini prawf y Gymuned ar gyfer manau aros ac yn diwygio'r cynllun o'r llwybr y cyfeirir ato yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 91/628/EEC(4).

(4) Ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas ag ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno.

(5) Ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

PART 1

Introduction

Title, commencement and application

1. The title of this Order is the Welfare of Animals (Transport) (Wales) Order 2007. It comes into force on 30 March 2007 and applies in relation to Wales.

Interpretation

2.-(1)In this Order "the Act" means the Animal Health Act 1981.

(2) Expressions used in this Order that are also used in the following Regulations have the meaning they bear in those Regulations.

(3) The Regulations are-

- (a) Council Regulation (EC) No 1/2005 on the protection of animals during transport and related operations and amending Directives 64/432/EEC and 93/119/EC and Regulation (EC) 1255/97(3);
- (b) Council Regulation (EC) No 1255/97 concerning Community criteria for staging points and amending the route plan referred to in the Annex to Directive 91/628/EEC(4).

(4) The "local authority" means in relation to an area the county council or county borough council for that area.

(5) The "National Assembly" means the National Assembly for Wales of Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

(1) 1981 p. 22 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 p.42.

(2) Swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymynion y Cynulliad Cenedlaethol (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a 2004 (O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044 yn y drefn honno).

(3) OJ L 3, 5.1.2005 t.1.

(4) OJ L 174, 2.7.97 t.1.

(1) 1981 c. 22 as amended by the Animal Health Act 2002 c.42.

(2) Functions transferred to the National Assembly by the National Assembly (Transfer of Functions) Orders 1999 and 2004 (S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044 respectively).

(3) OJ L 3, 5.1.2005 p.1.

(4) OJ L 174, 2.7.97 p.1.

(6) Mae unrhyw gyfeiriad at y Rheoliadau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (3) yn gyfeiriad at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o dro i dro.

Ymestyn y diffiniad o "animals" a "poultry"

3. At ddibenion y Ddeddf yn y modd y mae'n gymwys i'r Gorchymyn hwn, mae'r diffiniadau o "animals" a "poultry" yn adran 87 o'r Ddeddf yn cael eu hymestyn i gwmpasu pob anifail asgwrn cefn a phob anifail di-asgwrn-cefn â gwaed oer.

RHAN 2

Cludo Anifeiliaid

Darpariaeth gyffredinol ynghylch diogelu anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo

4.-(1) Mae'n dramgwydd i gludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n peri, neu'n debyg o beri, i'r anifail hwnnw gael ei anafu neu iddo ddiodef yn ddiangen.

(2) Mae'n dramgwydd i gludo unrhyw anifail ac eithrio yn y cynwysyddion neu'r cyfryngau cludo, o dan yr amodau (yn benodol gyda golwg ar le, awyru, tymheredd a diogelwch) a chyda'r cyflenwadau hylif ac ocsigen, sy'n briodol ar gyfer y rhywogaeth o dan sylw.

(3) Mae'r erthygl hon yn gymwys i gludo anifeiliaid di-asgwrn-cefn â gwaed oer.

(4) Mae'r erthygl hon yn gymwys i gludo anifeiliaid asgwrn cefn ac eithrio'r rhai y mae Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 yn gymwys iddynt.

Cludo

5.-(1) Bydd person sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 yn euog o dramgwydd yn erbyn y Ddeddf-

- (a) Erthygl 3 (amodau cyffredinol ar gyfer cludo anifeiliaid);
- (b) Erthygl 4(1) (mae Erthygl 4 yn ymwneud â dogfennaeth gludo);
- (c) Erthygl 5(1) (mae Erthygl 5 yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio i gludo anifeiliaid);
- (ch) Erthygl 6(1) (mae Erthygl 6 yn ymwneud â chlodwyr);
- (d) o 5 Ionawr 2008 ymlaen, Erthygl 6(5);
- (dd) Erthygl 7 (arolygu cyfrwng cludo ymlaen llaw a'i gymeradwyo ymlaen llaw);
- (e) pwyntiau 1.8, 1.9 neu 1.11 Pennod III o

(6) Any reference to the Regulations referred to in paragraph (3) is a reference to those instruments as amended from time to time.

Extension of definition of "animals" and "poultry"

3. For the purposes of the Act in its application to this Order, the definitions of animals and poultry in section 87 of the Act are extended to cover all vertebrate animals and cold-blooded invertebrate animals.

PART 2

Transport of Animals

General provision on the protection of animals during transport

4.-(1) It is an offence to transport any animal in a way which causes, or is likely to cause, injury or unnecessary suffering to that animal.

(2) It is an offence to transport any animal except in such receptacles or means of transport, under conditions (in particular with regard to space, ventilation, temperature and security) and with such supply of liquid and oxygen, as are appropriate for the species concerned.

(3) This article applies to the transport of cold-blooded invertebrate animals.

(4) This article applies to the transport of vertebrate animals except those to which Council Regulation (EC) No 1/2005 applies.

Transport

5.-(1) A person who fails to comply with any of the following provisions of Council Regulation (EC) No 1/2005 is guilty of an offence against the Act-

- (a) Article 3 (general conditions for the transport of animals);
- (b) Article 4(1) (Article 4 relates to transport documentation);
- (c) Article 5(1) (Article 5 relates to planning obligations for the transport of animals);
- (d) Article 6(1) (Article 6 relates to transporters);
- (e) from 5 January 2008, Article 6(5);
- (f) Article 7 (prior inspection and approval of means of transport);
- (g) points 1.8, 1.9 or 1.11 of Chapter III of Annex

Atodiad I (mae Pennod III yn ymwneud ag arferion cludo).

(2) Ni chaiff neb dynnu ymaith, difwyno, dileu na newid unrhyw farc a wneir o dan baragraff (3) o erthygl 24 (pwerau arolygwyr);

(3) Rhaid cadw copïau o'r ddogfennaeth y cyfeirir ati yn Erthygl 4 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 am 6 mis o'r dyddiad y cwblhawyd y daith.

Cludwyr

6. Bydd cludwr sy'n methu â chydymffurfio â darpariaethau canlynol Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 yn euog o dramgwydd yn erbyn y Ddeddf-

- (a) Erthygl 4(2) (mae Erthygl 4 yn ymwneud â dogfennaeth gludo);
- (b) Erthygl 5(2) a (4) (mae Erthygl 5 yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer cludo anifeiliaid);
- (c) Erthygl 6(2), (3), (4), (6) ac (8) (mae Erthygl 6 yn ymwneud â chlodwyr);
- (ch) Erthygl 6(9)-
 - (i) yn achos cyfrwng cludo ar y ffordd sydd mewn gwasanaeth am y tro cyntaf ar neu ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym; a
 - (ii) yn achos pob cyfrwng cludo ar y ffordd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009;
- (d) Erthygl 12 (mae Erthygl 12 yn ymwneud â chyfyngu ar geisiadau am awdurdodiad).

Llestri gyrru mewn ac allan

7.-(1) Bydd meist'r llestr gyrru mewn ac allan sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 3.1 Pennod II o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 (mae Pennod II yn ymwneud â darpariaethau ychwanegol ar gyfer cludo ar lestri gyrru mewn ac allan) yn euog o dramgwydd yn erbyn y Ddeddf.

(2) Ni chaiff unrhyw gludwr gludo anifeiliaid ar lestr gyrru mewn ac allan oni bai bod meist'r y llestr wedi gwirio'n gyntaf y materion y cyfeirir atynt yn y pwynt hwnnw.

Trefnwyr

8. Bydd trefnydd sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r rhwymedigaethau yn Erthygl 5(3) a (4) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 (mae Erthygl 5 yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio i gludo anifeiliaid) yn euog o dramgwydd yn erbyn y Ddeddf.

Ceidwaid

9. Bydd ceidwad sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 8 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 (ceidwaid mewn manau ymadael, manau

I (Chapter III relates to transport practices).

(2) No person is to remove, deface, obliterate or alter a mark made under paragraph (3) of article 24 (powers of inspectors).

(3) Copies of the documentation referred to in Article 4 of Council Regulation (EC) No 1/2005 must be kept for 6 months from the completion of the journey.

Transporters

6. A transporter who fails to comply with the following provisions of Council Regulation (EC) No 1/2005 is guilty of an offence against the Act-

- (a) Article 4(2) (Article 4 relates to transport documentation);
- (b) Article 5(2) and (4) (Article 5 relates to planning obligations for the transport of animals);
- (c) Article 6(2), (3), (4), (6) and (8) (Article 6 relates to transporters);
- (d) Article 6(9)-
 - (i) for means of transport by road in service for the first time on or after the coming into force date of this Order; and
 - (ii) for all means of transport by road on or after 1 January 2009;
- (e) Article 12 (Article 12 relates to limitation on applications for authorisation).

Roll-on-roll-off vessels

7.-(1) A master of a roll-on-roll-off vessel who fails to comply with point 3.1 of Chapter II of Annex I to Council Regulation (EC) No 1/2005 (Chapter II relates to additional provisions for transport on roll-on-roll-off vessels) is guilty of an offence against the Act.

(2) No transporter is to transport animals on a roll-on-roll-off vessel unless the master of the vessel has first verified the matters referred to in that point.

Organisers

8. An organiser who fails to comply with any of the obligations in Article 5(3) and (4) of Council Regulation (EC) No 1/2005 (Article 5 relates to planning obligations for the transport of animals) is guilty of an offence against the Act.

Keepers

9. A keeper who fails to comply with Article 8 of Council Regulation (EC) No 1/2005 (keepers at places of departure, transfer or destination) is guilty of an

trosglwyddo neu gyrchfannau) yn euog o dramgwydd yn erbyn y Ddeddf.

Canolfannau cynnull

10. Bydd gweithredydd canolfan gynnull sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 9 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 (canolfannau cynnull) yn euog o dramgwydd yn erbyn y Ddeddf.

Safleoedd rheoli

11.-(1) Mae'n dramgwydd i berson weithredu safle rheoli onid yw wedi'i gymeradwyo at y diben hwnnw.

(2) Mae'n dramgwydd i unrhyw berson weithredu neu ddefnyddio safle rheoli onid yw wedi'i gymeradwyo yn unol ag Erthygl 3(1) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97.

(3) Bydd gweithredydd safle rheoli sy'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97 yn euog o dramgwydd yn erbyn y Ddeddf-

- (a) Erthygl 4 (defnyddio safleoedd rheoli);
- (b) Erthygl 5 (gweithredu safleoedd rheoli);
- (c) Erthygl 6(1) (cadarnhau bod anifail yn ffit i barhau ar ei daith).

RHAN 3

Rhanddirymiaidau ar gyfer cyfryngau cludo ar y ffordd ar deithiau o dan 12 awr

Cymhwyso

12. Yn unol ag Erthygl 18(4) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, mae'r rhanddirymiaidau yn y Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â chyfrwng cludo ar y ffordd a ddefnyddir ar gyfer taith nad yw'n hwy na 12 awr er mwyn cyrraedd y gyrchfan derfynol ("cyfrwng cludo ar y ffordd").

Rhanddirymu arolygu a chymeradwyo

13. At ddibenion Erthygl 18(1) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, nid oes angen tystysgrif gymeradwyaeth ar gyfrwng cludo ar y ffordd a ddefnyddir i gludo anifeiliaid ac eithrio equidae domestig neu anifeiliaid domestig o deulu'r ych, teulu'r ddafad, teulu'r afr, neu deulu'r mochyn.

Rhanddirymu'r gofyniad am fynediad parhaus i ddwr

14. At ddibenion pwynt 1.4(b) Pennod V o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, yn ystod taith-

offence against the Act.

Assembly centres

10. An operator of an assembly centre who fails to comply with Article 9 of Council Regulation (EC) No 1/2005 (assembly centres) is guilty of an offence against the Act.

Control posts

11.-(1) It is an offence for a person to operate a control post unless he or she is approved for that purpose.

(2) It is an offence for any person to operate or use a control post unless it is approved in accordance with Article 3(1) of Council Regulation (EC) No 1255/97.

(3) An operator of a control post who fails to comply with any of the following provisions of Council Regulation (EC) No 1255/97 is guilty of an offence against the Act-

- (a) Article 4 (use of control posts);
- (b) Article 5 (the operation of control posts);
- (c) Article 6(1) (confirmation that an animal is fit to continue its journey).

PART 3

Derogations for means of transport by road on journeys under 12 hours

Application

12. In accordance with Article 18(4) of Council Regulation (EC) No 1/2005, the derogations in this Part apply in respect of a means of transport by road used for a journey that does not exceed 12 hours in order to reach the final place of destination ("means of transport by road").

Derogation from inspection and approval

13. For the purposes of Article 18(1) of Council Regulation (EC) No 1/2005, a means of transport by road used to transport animals other than domestic equidae or domestic animals of bovine, ovine, caprine or porcine species does not require a certificate of approval.

Derogation from requirement for continuous access to water

14. For the purposes of point 1.4(b) of Chapter V of Annex I to Council Regulation (EC) No 1/2005, during a journey pigs-

- (a) nid oes ar foch angen mynediad parhaus i ddwr ar gyfrwng cludo ar y ffordd;
- (b) rhaid cynnig dwr i foch bob hyn a hyn fel y bo'n briodol a rhoi cyfle digonol iddynt yfed.

Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch to sydd wedi'i inswleiddio

15. At ddibenion pwynt 1.1 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, nid oes angen inswleiddio to ar gyfrwng cludo ar y ffordd.

Rhanddirymu'r gofynion ynghylch tymheredd

16.-(1) At ddibenion pwynt 3.1 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005, caniateir i dymheredd ar gyfrwng cludo ar y ffordd ostwng islaw 0°C yn ystod taith-

- (a) hyd at yr amser y caiff y cyfrwng cludo ar y ffordd ei symud am y tro cyntaf yn y man ymadael; a
- (b) yn ystod unrhyw ddadlwytho a llwytho sy'n digwydd mewn mannau trosiannol ar y daith.

(2) Ond pan fo'r tymheredd yn gostwng islaw 0°C, rhaid darparu i foch, sy'n pwyso llai na 30kg ac nad yw eu mam yn mynd gyda hwy ar y daith, ddigon o ddeunydd sarn sy'n briodol i'r rhywogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cynnes a chysurus.

Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch systemau awyru

17. O ran y system awyru ar gyfrwng cludo ar y ffordd-

- (a) nid yw'n ofynnol iddi fod â'r galluedd a ddisgrifir ym mhwynt 3.2 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005;
- (b) rhaid bod modd ei haddasu er mwyn sicrhau y cedwir at y gofynion ar gyfer tymhereddau a nodir yn y pwynt hwnnw ac yn erthygl 16(1) yn ystod y daith.

Rhanddirymu'r gofynion ynghylch monitro tymheredd

18. Nid yw'n ofynnol cael y systemau monitro tymheredd, cofnodi data a rhybuddio y cyfeirir atynt ym mhwyntiau 3.3 a 3.4 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar gyfrwng cludo ar y ffordd.

Rhanddirymu'r gofyniad ynghylch system lywio

19. Nid yw'n ofynnol cael y system lywio y cyfeirir ati ym mhwynt 4.1 Pennod VI o Atodiad I i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar gyfrwng cludo ar y ffordd.

- (a) do not require continuous access to water on a means of transport by road;
- (b) must be offered water at appropriate intervals and afforded an adequate opportunity to drink.

Derogation from insulated roof requirement

15. For the purposes of point 1.1 of Chapter VI to Annex I to Council Regulation (EC) No 1/2005, the roof on a means of transport by road does not require insulation.

Derogation from temperature requirements

16.-(1) For the purposes of point 3.1 of Chapter VI of Annex I to Council Regulation (EC) No 1/2005, the temperature on a means of transport by road may fall below 0°C during a journey-

- (a) up to the time when the means of transport by road is first moved at the place of departure; and
- (b) during any unloading and loading occurring at intermediate points in the journey.

(2) But where the temperature falls below 0°C, pigs weighing less than 30 kgs and unaccompanied on the journey by their mother must be provided with adequate quantities of a bedding material appropriate to the species to ensure their thermal comfort.

Derogation from ventilation system requirement

17. The ventilation system on a means of transport by road-

- (a) does not require the capabilities described in point 3.2 of Chapter VI of Annex I to Council Regulation (EC) No 1/2005;
- (b) must be capable of adjustment so as to ensure that the requirements for temperatures set out in that point and in article 16(1) are maintained during the journey.

Derogation from temperature monitoring requirements

18. The temperature monitoring, data recording and warning systems referred to in points 3.3 and 3.4 of Chapter VI of Annex I to Council Regulation (EC) No 1/2005 are not required on a means of transport by road.

Derogation from navigation system requirement

19. The navigation system referred to in point 4.1 of Chapter VI of Annex I to Council Regulation (EC) No 1/2005 is not required in a means of transport by road.

RHAN 4

Cymeradwyaethau

Yr awdurdod cymwys

20.-(1) Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion rhoi neu ddyroddi-

- (a) awdurdodiadau i gludwyr yn unol ag Erthyglau 10, 11 a 13 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005;
- (b) tystysgrifau hyfedredd yn unol ag Erthygl 17(2) o'r Rheoliad hwnnw;
- (c) tystysgrifau cymeradwyo cyfryngau cludo ar y ffordd yn unol ag Erthygl 18(1) o'r Rheoliad hwnnw;
- (ch) tystysgrifau cymeradwyo llestri da byw yn unol ag Erthygl 19(1) o'r Rheoliad hwnnw.

(2) At ddibenion y Rheoliad hwnnw, y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys ar gyfer-

- (a) cael hysbysiadau o newidiadau sy'n ymwneud ag awdurdodiadau yn unol ag Erthygl 6(2);
- (b) derbyn dogfennau yn unol ag Erthygl 6(5), (8) a (9) a phwynt 3(b) o Atodiad II;
- (c) gwirio ac arolygu logiau teithio yn unol ag Erthygl 14(1) ac ail baragraff pwynt 5 o Atodiad II;
- (ch) cyflawni gwiriadau sy'n ymwneud â theithiau hir yn unol ag Erthygl 15;
- (d) cofnodi gwybodaeth ynglyn â llestri da byw yn unol ag Erthygl 19(3) a (4);
- (dd) arolygu llestri da byw yn unol ag Erthygl 20;
- (e) ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd, os na fydd cludwyr yn cydymffurfio, yn unol ag Erthygl 23;
- (f) cael hysbysiadau gan awdurdodau cymwys eraill o fethiant â chydymffurfio, yn unol ag Erthygl 26(2) a (3);
- (ff) cymryd camau, os bydd toriadau, yn unol ag Erthygl 26;
- (g) arolygu anifeiliaid, cyfryngau cludo a'r ddogfennaeth sy'n mynd gyda hwy yn unol ag Erthygl 27(1);
- (ng) cymeradwyo cymdeithasau dosbarthu yn unol â phwynt 1 Pennod IV o Atodiad I.

(3) Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion-

- (a) rhoi neu ddyroddi cymeradwyaethau yn unol ag Erthyglau 3 a 4(2) o Reoliad y Cyngor (EC)

PART 4

Approvals

The competent authority

20.-(1) The National Assembly is the competent authority for the purposes of granting or issuing-

